# HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU
# NOTICE OF AMENDMENTS

## Cyflwynwyd ar 8 Chwefror 2024
## Tabled on 8 February 2024

## Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)
## Senedd Cymru (Members and Elections) Bill

**Darren Millar** **19**

Section 19, page 12, after line 34, insert—

‘( ) when carrying out the review a committee established under paragraph (a) must—

(i) engage with relevant stakeholders;

(ii) carry out a public consultation, and’.

Adran 19, tudalen 12, ar ôl llinell 35, mewnosoder—

‘( ) cynnig bod rhaid i bwyllgor a sefydlir o dan baragraff (a), wrth gynnal yr adolygiad—

(i) ymgysylltu â’r rhanddeiliaid perthnasol;

(ii) cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, ac’.

**Darren Millar** **20**

Page 13, after line 3, insert a new section—

**‘[ ] Review of operation of the Act by the Welsh Ministers after 2026 general election**

(1) The Welsh Ministers must, before the end of the period of six months beginning with the first day after the end of the reporting period, prepare and publish a report on the operation of the provisions of this Act.

(2) Before preparing a report for the purposes of subsection (1), the Welsh Ministers must—

(a) engage with relevant stakeholders, and

(b) carry out a public consultation.

(3) The report published under subsection (1) must be laid before the Senedd.

(4) In subsection (1), “reporting period” means the period of three years beginning with the day of the first Senedd election for which the poll is held after 6 April 2026.’.

Tudalen 13, ar ôl llinell 3, mewnosoder adran newydd—

**‘[ ] Adolygiad o weithrediad y Ddeddf gan Weinidogion Cymru ar ôl etholiad cyffredinol 2026**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy’n dechrau â’r diwrnod cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod adrodd, lunio a chyhoeddi adroddiad ar weithrediad darpariaethau’r Ddeddf hon.

(2) Cyn llunio adroddiad at ddibenion is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) ymgysylltu â’r rhanddeiliaid perthnasol, a

(b) cynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

(3) Rhaid i’r adroddiad a gyhoeddir o dan is-adran (1) gael ei osod gerbron y Senedd.

(4) Yn is-adran (1), ystyr “cyfnod adrodd” yw’r cyfnod o dair blynedd sy’n dechrau â diwrnod etholiad cyntaf y Senedd y cynhelir y bleidlais ar ei gyfer ar ôl 6 Ebrill 2026.’.